
ABERYSTWYTH ARTS CENTRE January 1993 No. 58

# CERAMIC SERIES

## KAREN ATHERLEY

by Neil Patrick



SPLASHES of colour from the Med., traces of Ancient Greece, Matisse-like figures in flowing lines, and a hint of humour are all hallmarks of Karen Atherley's striking ceramics.

Rainy Manchester, Karen's birthplace, is a far cry from the sunny, vibrant work she developed after first falling in love with the feel of clay. In fact you are now almost as likely to find her pieces cropping up in an American store, a foreign exhibition or in Liberty's of London as in the provinces.

It was at nearby Rochdale that Karen completed an Arts Foundation Course before moving to Camberwell College of Arts and Crafts to further her planned-for career in ceramics. There she was lucky to be able to draw on the wide-ranging experience of two noted potters, Colin Pearson and Janice Tchalenko, who were her tutors.


Graduating in 1983, Karen established a studio in South London with friends, who were each to make their mark in the world of ceramics. The work of Belen Gomez, Rimmington/Vian and Robert Turner is now in demand in America. Karen has forged her own transatlantic link, having recently started to supply Bendalls in the U.S., and having exhibited in Canada.

Karen's figurative style — with its curvy, fleshy figures, "antique" faces, motifs resembling statuary and the clear, slip colours that surround them — has its origins in college days. A holiday spent on Patmos shaped the inclination she already had towards figurative work, and the bright colouring derives from warm countries where the light is brighter — with a little help, too, from Matisse, whom she admires greatly.

"It's the way he draws, with such fluidity of line" says Karen whose large, wall-mounted plates are in effect pictures...

She describes the essential elements of her work as encompassing "influences from the archaic to the Impressionists, combined with a love of colour and figurative decoration". She also points to the humour in her work ("Some of the faces turn out rather ugly" she says with a laugh).

A major step after graduation was the award of a Crafts Council "Setting Up" Grant, in 1985. Two years later she moved to Cambridgeshire and built a studio (she has moved again since but only a few miles, and now has her workshop in the garage — giving great motivation for an early start each day!).



Karen was chosen by Eastern Arts for a promotion called "First Impressions", organised jointly by the National Trust and Anglia TV, and last year she took part in a "Looking East" exhibition which started at Norwich Castle and eventually moved to the Handwerkshammer Gallery in Koblenz, Germany.



Between her first exhibitions and these later ones, Karen has been given a string of opportunities to show her work — in Harrogate, Chelsea, London, in her home town of Manchester and further afield in Toronto and Bourges, France, where her work appeared as part of a "twinning" exhibition. Karen was also represented in a Liberty "Tea Time" exhibition, and now her work is sold at the famous London store. Karen also supplies most of the Crafts Council-selected galleries and, of course, does private commissions. Her work was in especially good company last year when, at the Beaux Arts Summer Show she showed some large one-off pieces alongside the watercolours of Sir Hugh Casson.

Karen has mastered the technique of utilising a good colour range whilst at the same time giving lift to painted surfaces which otherwise might appear flat. Her technique is to paint slips on the red and white earthenware, glazed to earthenware temperatures. Then she adds depth with enamels, mainly gold, reds and blues, to pick up certain details in the decoration.

Working at her home in the village of Thorney, near Peterborough, Karen creates large, hand-built one-off items — big vases, bowls, centrepieces for tables, and plates. She also creates a great number of cups, saucers and tea-pots; the inside of the cups each contain a face. These are very popular and have been forming a large proportion of her production, especially as the recession has been limiting the amount people can spend on a major piece.

Karen's work is so strong visually that it grabs attention in any room where the colours are muted. Tall vases have the decorative figures integrated so well that they almost become statues; others appear pillar-like (another archaic reference Karen likes to draw upon). The figures seem to dominate the pots and plates. "I want the figure to appear to envelop the pot", Karen says.

So how does Karen see her work developing?

"I've been doing figurative work for so long now that I feel I would like to stay with that, although over the last ten years the work has changed, becoming more stylised and simpler.

"Perhaps I would like to try some story-type plates, maybe using mythological figures, or flowers. Icons also interest me a lot.

"Ideally, I would like to travel to stimulate new inspiration·"

My suggestion that the answer might lie in a grant to explore the colour, shapes and ambience of somewhere sunny was warmly received! Anyone out there who would like to help Karen on to the next major stage of her artistic career?

© Aberystwyth Arts Centre. Tel: (0970) 622887.

DESIGNED AND PRINTED BY POWYS PRINTERS LTD. WELSHPOOL, MID WALES. TEL: (0938) 554783. FAX: (0938) 556240.

CANOLFAN Y CELFYDDYDAU Ionawr 1993 Rhif 58

# GYFRES CERAMEG

## KAREN ATHERLEY

gan Neil Patrick



Mae tameidiau afreolaidd o liw o wledydd y Môr Canoldir, olion o Roeg Hynafol, ffigurau rhwydd eu llinellau fel rhai Matisse, ac awgrym o hiwmor, i gyd yn nodweddion o waith cerameg trawiadol Karen Atherley.

Mae Manceinion wlawog lle cafodd Karen ei geni yn hynod o wahanol i'r gwaith heulog, dirgrynol a ddatblygodd hi ar ôl iddi ymserchu mewn trin clai am y tro cyntaf. Yn wir erbyn hyn mae rhywun bron yr un mor debyg o ddod o hyd i'w gwaith mewn siop Americanaidd, mewn arddangosfa dramor neu yn Liberty's yn Llundain ag y mae mewn rhannau eraill o'r wlad hon.

Yn Rochdale, nid nepell o'i chartref, y cwblhaodd Karen Gwrs Celf Sylfaenol cyn symud i Goleg Celf a Chrefft Camberwell i hyrwyddo'r yrfa roedd hi'n darparu ar ei chyfer ym maes cerameg. Yno bu'n ddigon ffodus i allu manteisio ar brofiad eang dau grochenydd nodedig, Colin Pearson a Janice Tchalenko, a oedd yn diwtoriaid arni.

Graddiodd Karen ym 1983 a sefydlu stiwdio yn Ne Llundain gyda chyfeillion a ddaethant i gyd yn grochenyddion llwyddiannus. Erbyn hyn mae cryn alw am waith Belen Gomez, Rimmington/Vian a Robert Turner yn America. Ffurfiodd Karen ei chysylltiad ei hun ag America gan ddechrau cyflenwi Bendalls yn y Taleithiau Unedig, ac mae hi hefyd wedi arddangos ei gwaith yng Nghanada.



Mae arddull ffigurol Karen - gyda'i ffigurau siapus, cnawdol, wynebau "hynafol", motiffau sy'n ymdebygu i gerfluniaeth a'r lliwiau slip clir sy'n eu hamgylchu - yn tarddu o'i dyddiau coleg. Ffurfiwyd y duedd oedd ynddi'n barod tuag at waith ffigurol gan wyliau a dreuliodd ar ynys Patmos, ac mae'r lliwiau disglair yn tarddu o wledydd cynnes lle mae'r goleuni'n ddisgleiriach - ynghyd â pheth cymorth yn ogystal gan Matisse y mae hi'n ei edmygu'n fawr.

"Y ffordd y mae'n dylunio gyda'r fath rwyddineb yn ei linellau," meddai Karen, a darluniau i bob pwrpas yw ei phlatiau mawrion hithau ar gyfer eu hongian ar wal.

Mae hi'n disgrifio elfennau hanfodol ei gwaith fel pethau sy'n cwmpasu "dylanwadau o'r hynafol hyd yr Argraffiadwyr, wedi eu cyfuno â hoffter o liw ac addurn ffigurol". Mae hi hefyd yn tynnu sylw at yr hiwmor yn ei gwaith, ("Mae rhai o'r wynebau yn troi allan i fod braidd yn hyll," medai hi gan chwerthin).

Cam pwysig ar ôl iddi raddio oedd derbyn Grant "Sefydlu" y Cyngor Crefft ym 1985. Ddwy flynedd yn ddiweddarach symudodd i Swydd Caergrawnt a chodi stiwdio, (mae hi wedi symud eilwaith ers hynny, ond dim ond ychydig filltiroedd, ac erbyn hyn mae ei gweithdy yn y modurdy - sy'n gryn gymhelliad iddi gychwyn yn gynnar bob dydd!).

Dewiswyd Karen gan Eastern Arts ar gyfer arddangosfa dan yr enw "Argraffiadau Cyntaf", a drefnwyd ar y cyd gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Theledu Anglia, a'r llynedd bu'n rhan o arddangosfa "Edrych Tua'r Dwyrain" a ddechreuodd yng Nghastell Norwich ac a symudodd yn y diwedd i Oriel Handwerkshammer yn Koblenz yn yr Almaen.


Rhwng ei harddangosfeydd cyntaf a'r rhai diweddaraf hyn, cafodd Karen amryfal gyfleoedd i ddangos ei gwaith - yn Harrogate, Chelsea, Llundain, yn ei thref enedigol, Manceinion, ac ymhellach i ffwrdd yn Toronto ac yn Bourges, Ffrainc, lle'r ymddangosodd ei gwaith fel rhan o arddangosfa "gefeillio". Bu gwaith Karen yn rhan hefyd o arddangosfa "Amser Te" Liberty, a nawr mae ei gwaith ar werth yn y siop enwog yn Llundain. Mae hi hefyd yn darparu gwaith ar gyfer y rhan fwyaf o'r orielau a ddewiswyd gan y Cyngor Crefft, ac, wrth gwrs, yn derbyn comisiynau preifat. Roedd ei gwaith mewn cwmni hynod o aruchel y llynedd pan ddangoswyd rhai o'i heitemau unigol mawr ochr yn ochr â lluniau dyfrliw Syr Hugh Casson yn Sioe Gelf yr Haf Beaux!

Meistrolodd Karen y dechneg o ddefnyddio ystod dda o liwiau tra ar yr un pryd yn 'dyrchafu' arwynebau wedi eu peintio a fyddai ar wahân i hynny yn ymddangos yn fflat. Y dechneg a ddefnyddir ganddi yw peintio slip ar y clai priddlestr coch a gwyn wedi ei wydreddu i dymheredd priddlestr. Yna, bydd yn ychwanegu dyfnder gydag enamelau, aur, coch a glas yn bennaf, er mwyn pwysleisio rhai manylion yn yr addurn.

Mae Karen yn gweithio yn ei chartref ym mhentref Thorney, ger Peterborough, ac yn llunio eitemau unigol mawr â llaw - ffiolau a bowlenni mawr a phethau i'w gosod ar ganol bwrdd a phlatiau. Mae hi hefyd yn llunio llawer iawn o gwpanau, soseri a thebotiau; mae wyneb yn ymddangos y tu mewn i bob cwpan. Mae'r rhai hyn yn boblogaidd dros ben ac yn ffurfio canran uchel o'i chynnyrch, yn arbennig gan i'r dirwasgiad gyfngu ar y swm y gall pobl ei wario ar eitemau mwy sylweddol.

Mae gwaith Karen mor weledol gryf nes ei fod yn hawlio sylw mewn unrhyw ystafell lle mae'r lliwiau yn weddol dawel. Mae'r ffigurau wedi eu cyfannu mor llwyddiannus mewn ffiolau mawr nes eu bod bron â bod yn gerfluniau; ymddengys rhai eraill yn debyg i bileri (cyfeiriad hynafol arall y mae Karen yn hoff o elwa arno). Mae'r ffigurau fel pe baent yn dominyddu'r potiau a'r platiau. "Mae arnaf eisiau i'r ffigurau ymddangos fel pe baent yn amgau'r llestr," meddai Karen.

Sut felly y mae Karen yn gweld ei gwaith yn datblygu? "Rwyf wedi bod yn gwneud gwaith ffigurol gyhyd nes fy mod yn teimlo yr hoffwn barhau gyda hynny, er bod y gwaith wedi newid gan ddod yn fwy syml ac arddulliol yn ystod y ddeng mlynedd olaf. Efallai yr hoffwn roi cynnig ar fath o blatiau sy'n adrodd stori, gan ddefnyddio ffigurau mytholegol neu flodau o bosibl. Mae gennyf gryn ddiddordeb mewn iconau hefyd. Yn ddelfrydol hoffwn deithio er mwyn symbylu ysbrydoliaeth newydd." Cafodd fy awgrym mai'r ateb fyddai grant i archwilio lliw, ffurfiau a naws rhywle heulog groeso brwd! A oes rhywun yn rhywle a - hoffai helpu Karen i symud ymlaen i'r cam nesaf yn ei gyfrfa gelfyddydol?



© Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth. Ffôn: 0970 622887.